

Rhowch dân yn eich bol.

Amodau a thelerau llawn

Yr Amodau a Thelerau hyn fydd drech os oes unrhyw wrthdaro neu anghysondeb gydag unrhyw gyfathrebiadau eraill, gan gynnwys deunyddiau hysbysebu neu hyrwyddo.

Bernir fod y cyfarwyddiadau gwneud cynnig yn rhan o'r telerau ac amodau a chan bawb sy'n cymryd rhan. Bernir fod pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn y telerau ac amodau ac yn cytuno i gadw atynt. Dylech lawr lwytho copi er gwybodaeth.

- Hyrwyddwr: Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales, Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, SY23 3FF. Oni nodir yn wahanol, ni ddylid danfon unrhyw gynigion i'r cyfeiriad hwn.
- Mae derbyn y rheolau hyn yn amod cymryd rhan ac mae'r cyfarwyddiadau gwneud cynnig yn rhan o'r rheolau hyn. Mae gwneud cynnig yn dangos eich bod yn derbyn y rheolau hyn
- Gall ceiswyr gynnig trwy ddilyn y trefniadau cynnig a restrir ar dudalen yr ymgyrch ac ni fydd ond un 'neges cic dric lwyddiannus' ac un enillydd neges 'Eiliad glwc' lwyddiannus
- Pan geir mwy nac un cynnig ar gyfer y neges Cic dric' lwyddiannus, dewisir un cynnig ar hap o blith y cynigion 'Cic dric' llwyddiannus
- Pan geir mwy nac un cynnig ar gyfer y neges 'Eiliad glwc', dewisir enillydd gan banel o dri, sef Elinor Snowsill a dau gynrychiolydd o HCC. Bydd y meini prawf ar gyfer dewis enillydd yn seiliedig ar farn oddrychol y panel ei hun am yr ymgais mwyaf doniol
- Rhaid i geiswyr ddanfon pob cynnig ar dudalen Facebook neu Twitter Cig Eidion Cymru yn defnyddio @PGIWelshBeef a #LoveWelshBeef. Dim ond cynigion yn defnyddio'r ddolen a'r hashnod hyn fydd yn cael eu hystyried
- Enillydd 'Cic dric' – bydd y clwb yn cael cynnig hyd at £1,000 tuag at offer rygbi newydd, ynghyd â hamper o steics Cig Eidion Cymru PGI ar gyfer y tîm (hyd at uchafswm o 23). Bydd rhaid i'r clwb ddarparu prawf eu bod wedi prynu'r offer o fewn 6 mis i dderbyn yr arian
- Enillydd 'Eiliad glwc' – bydd y clwb yn cael cynnig dosbarth meistr ar gicio gydag Elinor Snowsill yn eu cae ymarfer, i'w gynnal ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr, ynghyd â hamper o'r steics Cig Eidion Cymru PGI gorau ar gyfer y tîm (hyd at uchafswm o 23)
- Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ddal y swm yn ôl hyd nes ei fod wedi cytuno â'r clwb pa offer ymarfer fydd yn cael ei brynu ac oddi wrth ba ddarparwydd (rhaid darparu dyfynbris cyn eu prynu a derbynebau ar ôl eu prynu)
- Rhaid bod gan enillwyr gyfrif cymdeithas neu fusnes i dalu arian i mewn iddo
- Yr hyrwyddwr yw Four Cymru yn gweithredu ar ran Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales.
- Nid yw gweithwyr (a'u teuluoedd neu asiantwyr) yr hyrwyddwr na HCC yn gymwys i gymryd rhan.
- Bydd unrhyw gynnig sy'n annarllenadwy neu'n mynd ar goll, yn anghyflawn neu'n dwyllodrus, neu nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau hyn mewn unrhyw ffordd arall, yn cael ei anghymwyso trwy benderfyniad Four Cymru yn unig.
- Hysbysir yr enillwyr heb fod yn hwyrach na 48 awr wedi i'w cynnig gael ei ddewis ar hap.
- Os nad yw'r enillwyr yn ymateb o fewn 72 awr i gael yr hysbysiad, mae gan yr Hyrwyddwr yr hawl i ail-dynnu enwau a dewis enillydd arall (ac felly ymlaen hyd nes y caiff y wobwr ei hawlio).
- Bydd y gystadleuaeth yn cychwyn ar 10 Tachwedd 2018 ac yn gorffen am 23:59 ar 16 Mawrth 2019. Rhaid derbyn cynigion erbyn yr amser a'r dyddiad cau hwn. Ni chaiff unrhyw gynigion a dderbynnir ar ôl yr amser hwn ar y dyddiad cau eu derbyn
- Bydd enwau'r cynigion buddugol ar gael tan 25 Mehefin 2019 a gellir cael copi ohonynt trwy ddanfon amlen wedi'i chyfeirio gyda stamp at: Four Cymru, 4 Y Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth SY23 3AH
- Nid yw'r gystadleuaeth ond ar agor i dimau rygbi menywod yng Nghymru
- Ni chynigir arian nac unrhyw wobwr arall yn lle'r wobwr
- Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am gynigion a gollir, a ddfrodur neu a arafir oherwydd methiant caledwedd neu feddalwedd cyfrifiaduwr / ffôn o unrhyw fath. Ni fydd prawf postio yn cael ei dderbyn fel prawf derbyn.
- Ni fydd Four Cymru ond yn defnyddio'r manylion personol a roddwyd ar gyfer gweinyddu'r hyrwyddiad ac nid at unrhyw ddiben arall, oni chawsom eich cydsyniad
- Trwy wneud cynnig yn y gystadleuaeth, mae'r enillwyr yn cytuno y gellir defnyddio enwau'r sawl sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth cic dric ac y gellir defnyddio enw'r clwb wrth gyhoeddi'r enillydd ar draws holl lwyfannau Cig Eidion Cymru
- Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ddiddymu neu ddiwygio telerau'r hyrwyddiad hwn heb roi rhybudd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth
- Gall yr hyrwyddwr ddewis ymestyn cyfnod yr hyrwyddiad
- Nid yw'r hyrwyddiad yn cael ei noddi, ei ardystio na'i weinyddu gan, nac yn gysylltiedig â, Facebook na Twitter. Nid yw'r naill lwyfan na'r llall yn gyfrifol am unrhyw agwedd o'r hyrwyddiad hwn

Hawlfraint: Mae'r Gystadleuaeth a'r holl ddeunyddiau cysylltiol yn hawlfraint © Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales a'i gysylltiedigion. Cedwir pob hawl.

